Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Busnes**

# **Amserlen diwygiedig ar gyfer ystyried:** Y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Rhentwyr (Diwygio)

Ebrill 2024

Ar 6 Chwefror 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes, yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(i), i wahodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ystyried a chyflwyno adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Rhentwyr (Diwygio).

Yn unol â Rheol Sefydlog 29.4(ii), cytunodd y Pwyllgor Busnes y dylai'r pwyllgorau gyflwyno adroddiad i'r Senedd erbyn 15 Mawrth 2024.

Ar 27 Chwefror 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd tan 26 Ebrill 2024.

Ar 16 Ebrill 2024, cytunodd y Pwyllgor Busnes i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ymhellach hyd at 10 Mai 2024.